# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mawrth 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalen 1)

**2.1 Llythyr gan y Llywydd at holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ynghylch y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 - effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

(Tudalennau 2 - 3)

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru - Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad)**

(Tudalennau 4 - 25)

**2.3 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol**

(Tudalennau 26 - 37)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Trafod Adroddiad Gwaddol Drafft y Pwyllgor

(13.30 - 14.00) (Tudalennau 38 - 56)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**5 Trafod ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad**

(14.00 - 14.45) (Tudalennau 57 - 71)

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**18 Mawrth 2021 – tudalen flaen papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-07-21 Papur 1 | Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 | Llythyr gan y Llywydd at holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ynghylch y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd | I'w nodi |
| ELGC(5)-07-21 Papur 2 | Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn | Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru – Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad) | I'w nodi |
| ELGC(5)-07-21 Papur 3 | Ymchwiliad i effaith COVID-19 | Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol | I'w nodi |

Senedd Cymru
Pwyllgor Busnes
—
Welsh Parliament
Business Committee



At: Holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd
Dros ebost

15 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

Ar ôl pasio Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, rwyf yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr effaith ar fusnes pwyllgorau cyn diddymu'r Senedd.

Mae'r Bil yn byrhau cyfnod y diddymiad fel ei fod yn dechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mai 2021. Bydd y diddymiad yn dechrau ar 29 Ebrill, a bydd yr Aelodau yn parhau i fod yn Aelodau o'r Senedd hyd nes y dyddiad hwnnw.

Y rhesymeg ar gyfer byrhau cyfnod y diddymiad (un wythnos yn hytrach na phedair), fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yw:

- Galluogi unrhyw bwerau newydd (y darperir ar eu cyfer yn y Bil) i ohirio'r etholiad (na ellir eu harfer yn ystod cyfnod y diddymiad) i gael eu harfer hyd at wythnos cyn yr etholiad; a
- Darparu dull o alluogi'r Senedd bresennol i ymateb, os bydd angen iddi wneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid rhoi chwarae teg i bob ymgeisydd cyn belled ag y bo modd, yn ystod cyfnod yr etholiad, er mwyn sicrhau etholiad teg a chyfle cyfartal i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau a wnaed gan Gomisiwn y Senedd wrth ystyried a fydd adnoddau'r Senedd ar gael i Aelodau a phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cyfnod. Byddwch yn cofio y gwnaeth Fforwm y Cadeiryddion drafod a chymeradwyo'r dull hwn hefyd yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror.

Yn unol â'r egwyddor hon, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar y drefn a ganlyn:

- Bydd y Senedd ar doriad rhwng 7 Ebrill a 28 Ebrill, sef 'y cyfnod cyn y diddymiad'. Bydd y cyfnod cyn y diddymiad yn dilyn toriad y Pasg (29 Mawrth - 6 Ebrill). Mae hyn yn gyson â blynyddoedd etholiad blaenorol, pan fo toriad y Pasg wedi arwain yn uniongyrchol at y diddymiad;
- Er mwyn sicrhau 'chwarae teg' i'r holl ymgeiswyr i'r graddau mwyaf posibl yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

- Felly, bydd holl weithgareddau pwyllgorau'r Senedd yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad;
- Fodd bynnag, o ystyried ei rôl wrth graffu ar reoliadau brys, caiff y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gwrdd os bydd angen iddo drafod rheoliadau brys sy'n ymwneud â'r coronafeirws, o'r math y byddai angen adalw'r Senedd ar eu cyfer, neu reoliadau sy'n ymwneud â gohirio etholiad y Senedd 2021, yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad. Noder, ni fyddai angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar reoliadau gwneud cadarnhaol yn ymwneud â'r coronafeirws fel mater o drefn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y bydd Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau yn aros yn eu lle yn ffurfiol, disgwylir i holl weithgareddau pwyllgorau'r Senedd ddod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau;
- Gwneud datganiadau cyhoeddus, drwy unrhyw gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfeirio at safle'r Aelod ar y Pwyllgor mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Pe bai etholiad y Senedd yn cael ei ohirio yn unol ag adran 6 o'r Bil, byddaf yn cynnull y Pwyllgor Busnes i drafod amserlen fusnes y Senedd, gan gynnwys trefnu amserlenni busnes pwyllgorau.

Pan fydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau ynghylch busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad.

Yn gywir,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JJ/1185/21

John Griffiths AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales

16 Mawrth 2021

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynghylch eich sesiynau casglu tystiolaeth diweddar a'ch ymgynghoriad â phreswylwyr ar y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am rannu rhai o'r prif faterion y mae lesddeiliaid a phreswylwyr wedi'u codi fel rhan o'r broses hon. Rwyf wedi darparu ymateb i bob un o'r materion a godwyd gennych yn eu tro.

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Mae'r cynigion yn ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyn wedi rhoi llais tenantiaid wrth galon ein gweledigaeth ar gyfer diwygio diogelwch adeiladau. Mae barn a phrofiad tenantiaid yn hanfodol i sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r atebion cywir. Cefais fy siomi, felly, o glywed nad oedd rhai preswylwyr yn ymwybodol o'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Mae fy swyddogion wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu sy'n benodol ar gyfer preswylwyr a lesddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys gweminarau a sesiynau gwybodaeth gyda TPAS Cymru, a fynychwyd ac a ddosbarthwyd ymhlith aelodau fel sefydliad sy'n cynrychioli tenantiaid, a sesiynau briffio gyda landlordiaid cymdeithasol i roi cyfle iddynt ymgysylltu â'u tenantiaid a'u lesddeiliaid.

Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu â lesddeiliaid yn y sector preifat, gan ddarparu sesiynau briffio gyda chyrff sy'n cynrychioli preswylwyr a grwpiau ymgyrchu. Er enghraifft, fe wnaethom gynnal sesiwn briffio ar y diwrnod y cafodd yr ymgynghoriad ei lansio. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o adeiladau 'proffil uchel' yn ogystal â'r Grŵp Gweithredu i Lesddeiliaid. Rydym wedi anfon e-bost at bob asiant rheoli adeiladau preswyl uchel iawn i dynnu eu sylw at yr ymgynghoriad, er mwyn eu hannog i dynnu sylw'r preswylwyr at yr ymgynghoriad. Hefyd, rydym wedi cwrdd â chynrychiolwyr adeiladau unigol i drafod y Papur Gwyn, yn ogystal â materion eraill. Rydym yn parhau i drefnu sesiynau briffio i breswylwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi datblygu deunyddiau sy'n seiliedig ar y Papur Gwyn sydd wedi'u hanelu'n benodol at breswylwyr i'w helpu i weld a deall y prif gynigion sy'n berthnasol iddyn nhw, a sut gallant rannu eu safbwyntiau a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Hefyd, rydym wedi targedu perchnogion adeiladau ac asiantau rheoli yn ein deunyddiau. Byddwn yn cynnal rhith ddigwyddiad yn nes ymlaen y mis hwn i'w helpu i rannu'r deunyddiau hyn gyda'u preswylwyr. Drwy wneud hyn, rydyn ni'n gobeithio rhoi'r wybodaeth a'r cymorth cyfathrebu priodol i'r rheini sy'n gyfrifol am reoli adeiladu ac ymgysylltu â thenantiaid er mwyn creu cyfleoedd i annog trafodaethau â'u preswylwyr ynghylch ein cynigion a chynyddu ymgysylltiad â phreswylwyr.

Amgaeaf gopïau o'r deunyddiau hyn er gwybodaeth i'r Pwyllgor, gan eich annog i'w rhannu ag unrhyw un o'r unigolion rydych wedi ymgysylltu â nhw ar y mater hwn fel rhan o'ch grwpiau ffocws.

Adeg y lansio, roedd y wasg a'r cyfryngau wedi dangos cryn ddiddordeb yn y mater hwn, ac rydym yn parhau i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy gyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu eraill.

Bydd fy swyddogion yn parhau i ystyried ffyrdd o ymgysylltu â phreswylwyr a byddant yn parhau i weithio gyda chwmnïau rheoli, asiantau rheoli a landlordiaid i hyrwyddo'r ymgynghoriad.

**Adeiladau sydd eisoes yn bodoli**

Rwyf yn ymwybodol iawn o'r heriau sylweddol sy'n codi gydag adeiladau sydd â diffygion diogelwch ar hyn o bryd. Rwyf wedi cwrdd yn bersonol â llawer o breswylwyr a lesddeiliaid yr adeiladau yr effeithir arnynt, ac maen nhw wedi rhannu â mi yr effaith sylweddol y mae'r sefyllfa hon yn ei chael arnynt. Nid oes amheuaeth o gwbl bod angen inni ymateb yn gyflym. Fodd bynnag, mae dod o hyd i'r ateb cywir ar gyfer y mater cymhleth hwn yr un mor bwysig â gweithio'n gyflym. Mae rhoi blaenoriaeth i lwybrau byr cyflym yn hytrach na diogelwch yn rhan fawr o'r broblem sydd gennym gyda'r system bresennol.

Rwyf wedi bod yn glir iawn bod diogelwch adeiladau yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon.

Yn dilyn tân Grenfell, cymerwyd camau prydlon a phendant i nodi'r adeiladau sydd â chladin ACM, a darparwyd £3m o gyllid cyfalaf i dynnu cladin ACM nad oedd yn cydymffurfio â'r safonau ar dri adeilad preswyl uchel iawn yng Nghymru a oedd yn perthyn i'r sector cymdeithasol, a gosod cladin arall yn ei le. Yn y sector preifat, aethom ati i weithio'n agos â pherchnogion adeiladau, a bellach mae cladin un ai wedi'i dynnu neu mae yna gynlluniau wedi'u gwneud gyda'r nod o barhau â'r gwaith eleni. Ni chodwyd costau ychwanegol ar y lesddeiliaid i gyflawni hyn. Ar wahân i gladin ACM, rydym wedi sicrhau bod £10.5m ar gael eleni i gefnogi adeiladau uchel iawn yn y sector cymdeithasol sydd â diffygion adeiladu, a fydd yn golygu bod 12 adeilad yn cael cymorth. Rydym hefyd wedi ymrwymo £32m o gyllid cyfalaf i gefnogi gwaith adfer ar gyfer y sector preifat a chymdeithasol yn 2021/22.

Byddwn yn sefydlu cynnig cyllid i Gymru sy'n mynd ymhellach na'r hyn sydd ar y gweill yn Lloegr. Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, rydym eisiau sicrhau bod cronfa adfer yn darparu dull cyfannol o adfer adeiladau, sy'n mynd y tu hwnt i gladin yn unig, i sicrhau bod yr adeiladau hyn yn wirioneddol ddiogel i breswylwyr.

Bydd y cyllid y bwriadwn ei gynnig yn edrych y tu hwnt i gladin i gynnwys creu adrannau o fewn adeiladau, dulliau o atal tân ac – yn bwysig iawn – systemau larwm, gwagio'r adeilad a llethu tân.

Byddaf yn rhoi rhagor o fanylion am y cynnig cyllid a sut i gael gafael arno gynted ag y gallaf.

**Mynediad at Wybodaeth**

Rwy'n ymwybodol y gall fod yn anodd cael gwybodaeth am adeiladau. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei gydnabod, mae hwn yn faes allweddol y mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn ceisio ei ddatrys, drwy greu Edau Aur o Wybodaeth sy'n sicrhau bod gwybodaeth gywir a dibynadwy am adeiladau'n cael ei chasglu a'i chynnal drwy gydol ei oes.

**Mynediad at Gyngor**

Fel y mae'r Pwyllgor yn ei gydnabod, mae diogelwch adeiladau yn faes cymhleth iawn sy'n galw am wybodaeth arbenigol ac arbenigedd. Fel Llywodraeth, rydym yn cyllido gwasanaeth LEASE sy'n gallu rhoi cyngor fesul achos er mwyn helpu unigolion i ymdopi â'r cymhlethdod hwn.

Yn ein gohebiaeth, rydym yn hyrwyddo unrhyw gyfle i gael mynediad at LEASE. Byddwn yn newid ein dogfennau i gynnwys eu gwybodaeth er mwyn codi mwy o ymwybyddiaeth.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth, a dyna pam bydd ein camau diwygio yn sicrhau bod y rheini sydd â'r dyletswyddau perthnasol yn meddu ar y cymhwystra a'r arbenigedd i reoli eu hadeiladau yn gywir a darparu'r wybodaeth a'r cymorth iawn i breswylwyr.

**Diffygion amlwg**

Mae perchnogion adeiladau yn ymgymryd â phroses System Waliau Allanol (EWS). Perchennog yr adeilad neu'r asiant rheoli sy'n gyfrifol am gadarnhau pa ddeunyddiau sydd ar eu hadeilad ac a oes angen asesiad. Os nad yw perchennog yr adeilad yn cydnabod ei gyfrifoldeb cyfreithiol ac yn gwrthod cynnal yr asesiad angenrheidiol, gall yr awdurdod lleol roi cyngor pellach ar y camau a allai gael eu cymryd.

Mae'n bwysig sicrhau bod aelod o gorff proffesiynol perthnasol sydd â chymwysterau priodol, ac sy'n meddu ar ddigon o arbenigedd i ganfod deunyddiau perthnasol o fewn cladin wal allanol, yn ymgymryd â'r broses adolygu. Mae gwefan RICS yn darparu gwybodaeth am weithwyr proffesiynol sy'n gallu cynnal yr asesiadau hyn (https://www.rics.org/uk/news-insight/latest-news/fire-safety/new-industry-wide-process-agreed-for-valuation-of-high-rise-buildings/).

Rydym hefyd wedi cael cryn dipyn o ymholiadau a phryderon gan breswylwyr a lesddeiliaid ynghylch proses EWS1. Mae'r broses hefyd wedi cael ei newid yn ddiweddar ar ôl i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) gyhoeddi'r canllawiau diweddaraf sy'n ceisio annog dull mwy cymesur o asesu adeiladau a sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau ychwanegol yn canolbwyntio ar yr adeiladau sydd fwyaf mewn perygl (mae'r canllawiau diweddaraf ar gael yma).

Rydym yn parhau i gyfeirio at ganllawiau a chwestiynau cyffredin defnyddiol ar wefan RICS i sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir am ddatblygiadau ac unrhyw gamau y gallai fod angen iddynt eu cymryd mewn perthynas â'u hadeilad.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn egluro'r camau rydym ni'n eu cymryd yn y maes pwysig hwn a'i bod yn ddefnyddiol i chi ac i aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

# Adeiladau mwy diogel yng Nghymru – canllawiau i breswylwyr ar yr ymgynghoriad

## Ein cynigion i newid y ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch adeiladau a sut y gallwch chi gyfrannu

### Gwybodaeth am y Papur Gwyn

Mae'r Papur Gwyn Adeiladau mwy diogel yng Nghymru yn nodi ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffordd rydym yn dylunio, adeiladu, rheoli a byw mewn adeiladau aml-feddiannaeth yng Nghymru.

Fe wnaeth y drasiedi yn Nhŵr Grenfell ddangos yn glir bod angen i ni gymryd camau pwysig i wella diogelwch adeiladau er mwyn i breswylwyr fod yn hyderus bod eu cartrefi'n ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda.

Mae Papur Gwyn yn ddogfen bolisi a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Mae'n gyfle i ymgynghori a thrafod â'r rhai sydd â diddordeb yn y newidiadau arfaethedig, neu y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt.

### Y newidiadau allweddol yr ydym yn eu cynnig a fydd yn effeithio ar breswylwyr

Rydym am wneud newidiadau sy'n golygu y gall preswylwyr gael mwy o lais yn y materion sy'n effeithio ar eu cartrefi a sut y cânt eu rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Creu rolau newydd i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl ganddynt;
- Rhoi dyletswydd ar y rhai sy'n berchen ar eich adeilad neu'n ei reoli i hyrwyddo diogelwch adeiladu er budd yr holl breswylwyr;
- Rhannu gwybodaeth allweddol am ddiogelwch gyda chi megis pa fesurau; diogelwch tân sydd yn eich adeilad (e.e. drysau tân, systemau chwistrellu ac ati) a chyngor ar beth i'w wneud os bydd tân;
- Gwybodaeth am sut y gallwch gysylltu â'r rhai sy'n rheoli eich adeilad i godi pryder neu wneud cwyn;
- Gwybodaeth am y camau y gallwch eu cymryd i hybu diogelwch yn eich adeilad.

### Sut allai'r cynigion yn y Papur Gwyn fod yn berthnasol i'ch adeilad chi

Mae llawer o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn berthnasol i bob adeilad preswyl aml-feddiannaeth yng Nghymru, p'un a ydynt wedi'u hadeiladu'n bwrpasol neu eu haddasu. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cael dau gategori o adeiladau, gyda mwy o ofynion ar adeiladau Categori 1 nag adeiladau Categori 2.

Rydym yn cynnig mai'r adeiladau hynny sydd â chwe llawr neu sy'n 18m neu fwy o uchder fydd yng Nghategori 1.

Bydd adeiladau Categori 2 yn eiddo preswyl gyda dwy annedd neu fwy nad ydynt yn fwy na 18m o uchder.

**Sut bydd y cynigion yn berthnasol i adeiladau sy’n bodoli eisoes a rhai newydd a adeiladir ar ôl cyflwyno'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd**

Bydd y rhan fwyaf o'r cynigion a fydd yn newid y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio a'u hadeiladu yn berthnasol i adeiladau newydd neu adeiladau sy’n bodoli eisoes sy'n mynd drwy'r broses rheoliadau adeiladu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cynnig gwneud llawer o newidiadau i'r ffordd y caiff adeiladau a feddiannir eu rheoli. Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i adeiladau newydd ac adeiladau sy’n bodoli eisoes.

**Y cyfrifoldeb am ddiogelwch adeiladau**

Rydym yn cynnig cyflwyno rolau newydd er mwyn ei gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch adeiladau o dan y system newydd. Byddant yn cael eu galw'n 'ddeiliaid dyletswydd'. Gellir rolau deiliaid dyletswydd gael eu cyflawni gan unigolyn neu endid cyfreithiol fel sefydliad. Rydym yn bwriadu creu dwy rôl newydd:

**1. Y Person Atebol**

Bydd gan bob adeilad aml-feddiannaeth Berson Atebol. Bydd gan y person hwnnw gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddiogelwch yr adeilad cyfan a ddefnyddir at ddibenion preswyl. Bydd ei ddyletswyddau'n cynnwys:

- dyletswydd i gofrestru pob adeilad a gwmpesir sydd o dan ei berchnogaeth / rheolaeth;
- cynnal asesiadau tân a risg perthnasol;
- uniondeb a gweithio cyfrifol;
- sicrhau bod digon o arian i fynd i'r afael â materion diogelwch adeiladau;
- cynnal ymgysylltiad priodol ag eraill;
- hysbysu a chefnogi preswylwyr.

**2. Rheolwr Diogelwch Adeilad**

Bydd Rheolwr Diogelwch Adeilad hefyd mewn adeiladau Categori 1. Gall y Person Atebol gyflawni’r rôl hon ei hun os oes ganddo gymwysterau addas. Bydd Rheolwr Diogelwch Adeilad yn cefnogi'r Person Atebol i fodloni'r gofynion diogelwch newydd a bydd ganddo gyfrifoldeb mwy ymarferol o ddydd i ddydd am reoli'r adeilad. Gallai sefydliad fel asiant rheoli neu unigolyn cymwys ymgymryd â'r rôl hon. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys:

- creu, adolygu a chadw gwybodaeth am yr adeilad (sef y ‘Llinyn Aur');
- cynllunio a monitro unrhyw waith cynnal a chadw neu wella;

- sicrhau bod unrhyw drydydd partïon a gyflogir i weithio ar yr adeilad yn ddigon cymwys ac yn meddu ar y cymwysterau i wneud hynny;
- cydweithio â deiliaid dyletswydd a chyrff gorfodi eraill;
- ymgysylltu â phreswylwyr a'u hysbysu (gan gynnwys hyrwyddo diogelwch adeiladau mewn modd rhagweithiol).

Rhaid i'r Person Atebol fod wedi'i gofrestru fel ein bod yn gwybod pa adeiladau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Rheolwr Diogelwch Adeilad gofrestru hefyd.

**Hyfforddiant neu gymwysterau ar gyfer y Person Atebol neu'r Rheolwr Diogelwch Adeilad**

Rydym am sicrhau bod gan ddeiliaid dyletswydd yr arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu rolau. Rydym yn dal i ddatblygu'r gofynion o ran hyfforddiant a chymwysterau ond rydym yn cynnig bod y Person Atebol a'r Rheolwr Diogelwch Adeilad yn cael trwyddedau fel eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac deall eu dyletswyddau o dan y system newydd. Bydd y gofynion o ran hyfforddiant a chymwysterau yn wahanol yn dibynnu ar gategori'r adeilad a'r rôl y maent yn ei gymryd.

Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno system drwyddedu ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â rheoli adeiladau, er enghraifft asiantau rheoli ac asiantau gosod, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn yn gwella ac yn broffesiynol.

**Sut bydd y cynigion yn sicrhau bod eich adeilad chi'n fwy diogel**

Bydd y cynigion yn ei gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch yn eich adeilad a sut y gallwch gysylltu â nhw os oes unrhyw broblemau, neu uwchgyfeirio problemau os nad eir i'r afael â nhw. Rydym hefyd am gryfhau'r ffordd y gweithredir rhai mesurau diogelwch cyfredol. Er enghraifft, rydym am wneud newidiadau pwysig i'r ffordd y cynhelir asesiadau risg tân. Rydym am iddynt gael eu cyflawni'n amlach, gan rywun sydd â'r cymwysterau cywir, a bod y rhai sy'n gyfrifol yn cofnodi'r risgiau a nodwyd a'r camau a gymerwyd i'w hatal neu eu lliniaru fel y gellir sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i breswylwyr.

**Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod eich adeilad chi'n ddiogel**

Mae gan bob preswylydd rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod eu hadeiladau mor ddiogel â phosibl. Gall ymddygiad anniogel arwain neu gyfrannu at dân a risgiau diogelwch eraill. Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd sicrhau eu bod yn lleihau'r risg o ran diogelwch, rydym yn cynnig cyfrifoldebau ychwanegol i breswylwyr er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i bawb.

Rydym yn cynnig gofyniad ar breswylwyr i gydweithredu â'r Person Atebol a'u cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- caniatáu i berson cymeradwy gael mynediad i'ch eiddo ar gyfer archwiliad diogelwch neu i wneud gwaith;
- darparu gwybodaeth resymol am waith rydych wedi'i wneud yn eich eiddo;
- ceisio caniatâd ymlaen llaw cyn gwneud gwaith yn eich eiddo a all beryglu mesurau diogelwch tân.

Rydym hefyd yn cynnig gofyniad ar breswylwyr (ac eraill) i beidio â mynd ati'n fwriadol i dorri rheolau adrannu eu heiddo. Adrannu yw gallu adeilad i gadw tân lle mae'n dechrau yn ddigon hir i'w ddiffodd. Mae enghreifftiau o dorri'r compartmentau yn cynnwys:

- drilio drwy wal allanol, unrhyw ran o'r strwythur mewnol sy'n gwahanu un fflat oddi wrth un arall, to neu wagle yn y nenfwd, neu ardal gyffredin (gan gynnwys drysau ffrynt) heb roi mesurau atal tân digonol ar waith;
- addasu drysau tân neu osod drysau nad ydynt yn gwrthsefyll ymlediad tân yn ddigonol yn lle drysau tân;
- ymyrryd â dyfeisiau hunan-gau ar ddrysau tân, neu eu tynnu i ffwrdd;
- gosod ffenestri neu dyllau aer mewn ffenestri nad ydynt yn gwrthsefyll ymlediad tân yn ddigonol.

### Costau ychwanegol i breswylwyr o ganlyniad i'r cynigion yn y Papur Gwyn

Bydd cost ar gyfer y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd. Fodd bynnag, credwn fod y costau hyn yn angenrheidiol ac yn rhesymol ar gyfer pethau a fydd yn arwain at gynnydd mesuradwy mewn diogelwch.

Gwyddom fod llawer o drigolion yn wynebu costau sylweddol ar hyn o bryd oherwydd materion sydd wedi'u nodi gyda'u hadeiladau. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i ddatblygu cynnig cyllid i fynd i'r afael â materion sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â chladin, diffygion adeiladu fel adrannu a bylchau tân, systemau llethu tân (chwistrellwyr) a seinyddion gwacáu'r adeilad. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am y cyllid sydd ar gael a sut i gael gafael arno cyn gynted ag y gallwn.

### Cyllid ar gyfer gwaith adfer sydd ei angen ar eich adeilad nawr

Nid yw ein cynigion yn ymwneud ag unrhyw waith adfer sy'n ofynnol ar adeiladau sy'n bodoli eisoes. Maent yn ymwneud â diwygiadau mawr i'r ffordd rydym yn dylunio, adeiladu, rheoli a byw mewn eiddo, er mwyn gwneud adeiladau'n fwy diogel yn y dyfodol a sicrhau ein bod yn osgoi'r mathau hyn o broblemau eto.

### Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynigion hyn a dweud eich dweud ar dudalen yr ymgynghoriad Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru.

Mae Fersiynau Cryno a Hawdd ei Ddeall o'r Papur Gwyn hefyd ar gael.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau am ein cynigion. Os hoffech ymateb i'r cwestiynau, cwblhewch y ffurflen ar-lein neu gallwch lawrlwytho’r ffurflen ymateb a’i hanfon atom.

Y Tîm Diogelwch Adeiladau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: DiogelwchAdeiladau@llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# *Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad*

## *Beth mae'r cynigion yn ei olygu i breswylwyr?*

# Beth yw Papur Gwyn?

Mae **Papur Gwyn** yn **ddogfen bolisi a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol**. Mae'n gyfle i ymgynghori a thrafod â'r rhai sydd â diddordeb yn y newidiadau arfaethedig, neu y mae'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt.

Mae'r Papur Gwyn 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru' yn nodi **newidiadau i'r ffordd y caiff adeiladau amlfeddiannaeth, megis fflatiau, eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli yng Nghymru.** Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 12 Ionawr 2021.



Bwriedir i'r cynigion sicrhau bod adeiladau'n fwy diogel yn y dyfodol – tra byddant yn cael eu dylunio a'u hadeiladu a phan fydd pobl yn byw ynddynt.

Hoffem gael eich barn ar ein cynigion, yn arbennig y rhai a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar breswylwyr, fel chi, yn y dyfodol.

***NID*** *yw'r cynigion hyn yn ymwneud â chyllid ar gyfer unrhyw waith adfer sydd angen ei wneud ar hyn o bryd ar adeiladau sydd â diffygion diogelwch eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau mewn perthynas â chynnig cyllido a bydd yn gwneud cyhoeddiad maes o law. Mae a wnelo'r newidiadau a nodir yn y Papur Gwyn â gwneud newidiadau er mwyn sicrhau na fydd y problemau hyn yn codi eto yn y dyfodol.*

.

# Adeiladau Mwy Diogel yng Ngymru - Ymgynghoriad

Mae ein cynigion ar gyfer **diwygiadau** sylweddol **i'r ffordd rydym yn dylunio, yn adeiladu ac yn rheoli eiddo ac yn byw yn yr eiddo hwnnw**, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelwch ar bob cam yng nghylch oes adeilad. Maent yn canolbwyntio ar newidiadau i'r gyfraith drwy gydol cylch oes adeiladau a newid diwylliant o ran y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli.

Yn ystadegol, mae pobl yn fwy tebygol o gael eu hanafu mewn tanau sy'n dechrau mewn Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo sydd wedi'i addasu'n fflatiau. Ond dangosodd Grenfell, os bydd tân mewn bloc o fflatiau uchel iawn, y gall y canlyniadau fod yn drychinebus. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig y **bydd y gofynion newydd yn gymwys i fwy nag adeiladau uchel iawn yn unig** ac y byddant yn cymwys mathau eraill o adeiladau lle y gall hefyd fod risg i breswylwyr.

Mae'r adeiladau y bydd y newidiadau yn gymwys iddynt wedi'u rhannu'n ddau gategori neu grŵp, sef:

- **Categori 1 –** adeiladau sy'n cynnwys dwy annedd neu fwy sy'n 18m o uchder neu'n uwch neu sydd â mwy na 6 llawr. Bydd yr adeiladau hyn yn destun mwy o newidiadau o dan ofynion y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau. Dim ond i'r categori hwn y bydd newidiadau mewn perthynas â dylunio ac adeiladu yn gymwys.
- **Categori 2 –** eiddo preswyl sy'n cynnwys dwy annedd neu fwy ac nad yw'n fwy na 18m o uchder. Bydd yr adeiladau hyn yn ddarostyngedig i lawer o ofynion y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau.

Bydd **y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff adeiladau eu dylunio a'u hadeiladu yn gymwys i** adeiladau preswyl newydd neu adeiladau sy'n bodoli eisoes sy'n mynd drwy broses y rheoliadau adeiladu ac sy'n **18m o uchder neu'n uwch.**

Bydd **y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff adeiladau a feddiennir eu rheoli yn gymwys i adeiladau newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes** yng Nghategori 1 a Chategori 2.

# Y newidiadau allweddol yr dwym yn eu cynnig a fydd yn effeithio ar breswylwyr



Rydym am wneud newidiadau sy'n golygu y gall **preswylwyr gael mwy o lais** yn y materion sy'n effeithio ar eu cartrefi a sut y cânt eu rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Creu **rolau newydd i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad** fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl ganddynt;
- Rhoi dyletswydd ar y rhai sy'n berchen ar eich adeilad neu'n ei reoli i **hyrwyddo diogelwch adeiladu** er budd yr holl breswylwyr;
- Rhannu gwybodaeth allweddol am **ddiogelwch** gyda chi megis pa fesurau; diogelwch tân sydd yn eich adeilad (e.e. drysau tân, systemau chwistrellu ac ati) a chyngor ar beth i'w wneud os bydd tân;
- Gwybodaeth am sut y gallwch gysylltu â'r rhai sy'n rheoli eich adeilad i **godi pryder neu wneud cwyn**;
- Gwybodaeth am y camau y gallwch eu cymryd i hybu diogelwch yn eich adeilad.

**Bydd** y diwygiadau hyn **yn gymwys i adeiladau sy'n bodoli eisoes yn ogystal ag adeiladau newydd** neu adeiladau a gaiff eu haddasu'n eiddo preswyl.

# Person Atebol

Rydym yn cynnig y dylid creu **rolau** newydd **i'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr adeilad** fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl ganddynt.

Bydd gan bob adeilad aml-feddiannaeth **Berson Atebol**. Y Person Atebol sy'n gyfrifol yn y pen draw am fodloni gofynion y gyfundrefn newydd ar gyfer ei adeiladau/eiddo. Bydd gan y person hwnnw gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddiogelwch yr adeilad cyfan a ddefnyddir at ddibenion preswyl. Bydd ei ddyletswyddau'n cynnwys:

- dyletswydd i gofrestru pob adeilad a gwmpesir sydd o dan ei berchnogaeth / rheolaeth;
- cynnal asesiadau tân a risg perthnasol;
- uniondeb a gweithio cyfrifol;
- sicrhau bod digon o arian i fynd i'r afael â materion diogelwch adeiladau;
- cynnal ymgysylltiad priodol ag eraill;
- hysbysu a chefnogi preswylwyr.

# Rheolwr Diogelwch Adeilad

Ar gyfer adeiladau Categori 1 (neu adeiladau uchel iawn) yn unig, rydym hefyd yn cynnig y dylid creu rôl **Rheolwr Diogelwch Adeilad,** gall y Person Atebol gyflawni’r rôl hon ei hun os oes ganddo gymwysterau addas. .

Bydd Rheolwr Diogelwch Adeilad yn cefnogi'r Person Atebol i fodloni'r gofynion diogelwch newydd a bydd ganddo **gyfrifoldeb mwy ymarferol o ddydd i ddydd** am reoli'r adeilad. Er y gall fod yn cyflawni dyletswyddau o ddydd i ddydd, y Person Atebol sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddiogelwch yr adeilad.

Gallai sefydliad fel asiant rheoli neu unigolyn cymwys ymgymryd â'r rôl hon. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys:

- creu, adolygu a chadw gwybodaeth am yr adeilad (sef y ‘Llinyn Aur');
- cynllunio a monitro unrhyw waith cynnal a chadw neu wella;
- sicrhau bod unrhyw drydydd partïon a gyflogir i weithio ar yr adeilad yn ddigon cymwys ac yn meddu ar y cymwysterau i wneud hynny;
- cydweithio â deiliaid dyletswydd a chyrff gorfodi eraill;
- ymgysylltu â phreswylwyr a'u hysbysu (gan gynnwys hyrwyddo diogelwch adeiladau mewn modd rhagweithiol).

# Hyfforddiant neu gymwysterau ar gyfer y Person Atebol neu'r Rheolwr Diogelwch Adeilad

Rydym am sicrhau bod gan **ddeiliaid dyletswydd yr arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu rolau**.

Rydym yn cynnig bod y **Person Atebol a'r Rheolwr Diogelwch Adeilad yn cael trwyddedau** fel eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ac deall eu dyletswyddau o dan y system newydd.

Bydd **y gofynion** o ran hyfforddiant a chymwysterau **yn wahanol yn dibynnu ar gategori'r adeilad** a'r rôl y maent yn ei gymryd.

Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno **system drwyddedu ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â rheoli adeiladau**, er enghraifft asiantau rheoli ac asiantau gosod, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn yn gwella ac yn broffesiynol.

# Asesiad Risgiau Tân

Er mwyn gwneud yn siŵr bod adeiladau yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob preswylydd yn ddiogel, mae **mesurau diogelwch newydd y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w cyflwyno.**

Un enghraifft o hyn yw gwneud newidiadau i'r ffordd y cynhelir asesiadau risgiau tân. Bydd hyn yn gymwys i bob adeilad a gwmpesir gan y system newydd.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol o ran pwy a all gynnal asesiad risgiau tân nac unrhyw ofyniad ar y rhai sy'n gwneud hynny i feddu ar unrhyw gymwysterau na phrofiad penodol. Mae'r cynigion am newid hyn er mwyn sicrhau bod yn rhaid i bob asesiad risgiau tân gael ei **gynnal gan unigolion profiadol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol.**

Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod yn rhaid i asesiadau risgiau tân ar gyfer pob adeilad a gwmpesir gan y system newydd gael eu **hadolygu bob blwyddyn**, a phob tro y caiff gwaith mawr neu waith adnewyddu ei wneud ar yr eiddo neu bob tro y bydd amgylchiadau'r eiddo yn newid yn sylweddol.

Mae'r asesiad risgiau tân yn hanfodol i gynnal diogelwch tân ac mae angen cofnodi ei ganfyddiadau yn glir, eu deall, gweithredu arnynt a'u diweddaru. Felly, rydym yn cynnig bod yn **rhaid** i bob asesiad risgiau tân gael ei **gofnodi'n barhaol** mewn dogfen neu'n electronig. Yn ogystal â sicrhau cofnodion cywir, mae hyn hefyd yn golygu y gall y wybodaeth hon gael ei rhannu â phreswylwyr er mwyn iddynt allu deall pa gamau sy'n cael eu cymryd i gadw eich adeilad/eiddo yn ddiogel.

# Hyrwyddo Diogelwch Adeiladau

Dylai pob Person Atebol **ddarparu lefel ofynnol o wybodaeth i breswylwyr** er mwyn hyrwyddo diogelwch yn eu hadeiladau.  Cynigir y dylai'r wybodaeth hon gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am fesurau diogelwch tân yn yr adeilad.
- Cyngor ar beth i'w wneud os bydd tân neu os bydd y larwm tân yn canu.
- Cyngor cyffredinol ar ddiogelwch tân i breswylwyr.
- Gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid dyletswydd
- Gwybodaeth am yr hyn a ddisgwylir gan breswylwyr.

Dylai lefel a manylder y wybodaeth a roddir i breswylwyr adlewyrchu cymhlethdod yr adeilad.

Dylai'r Person Atebol fod yn ymwybodol o anghenion preswylwyr **Dylid darparu gwybodaeth mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hygyrch.** Er enghraifft, gan ystyried gofynion iaith.

Dylai'r Person Atebol fod yn rhagweithiol, gan roi gwybodaeth i breswylwyr a'u hysbysu am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth honno fel y bo'n briodol.  Bydd hyn yn helpu i **hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw.**

# Cwynion a Phryderon



Bydd angen i'r Person Atebol wneud yn siŵr ei fod yn **gwrando ar gwynion a phryderon a godir gan breswylwyr ac yn mynd i'r afael â nhw** ar gyfer pob adeilad o dan y system newydd.

Ar gyfer adeiladau **Categori 1**, bydd hefyd yn ofynnol i'r Person Atebol sefydlu proses i breswylwyr godi pryderon ynghylch diogelwch adeilad, gan gynnwys cwyn ffurfiol. Byddai angen nodi'r canlynol:

- Y broses ar gyfer codi pryder a'i droi'n gŵyn ffurfiol.
- Y ffordd y caiff gwybodaeth am gwynion ei chofnodi (gan gynnwys asesu'r pryder a'r broses o benderfynu ar unrhyw gamau a gymerwyd).
- Y ffordd y caiff ymatebion i bryderon a chwynion eu darparu i'r achwynydd a'r ffordd y caiff gwybodaeth am bryderon a chwynion ei darparu i bob preswylydd a lesdeiliad.
- Gwybodaeth am sut i uwchgyfeirio pryder i'r rheoleiddiwr os na fydd y rhai sy'n gyfrifol yn mynd i'r afael ag ef nac yn ei gymryd o ddifrif.

Er na fydd yn ofynnol i system ffurfiol o'r fath fod ar waith ar gyfer adeiladau **Categori 2**, byddem yn disgwyl i'r Person Atebol roi ystyriaeth briodol i'r ffordd y gallai preswylwyr godi pryderon gydag ef/hi.

# Rolau a Chyfrifoldebau Preswlwyr

Fel **preswylwyr, mae gennych rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod eich cartrefi mor ddiogel â phosibl**. Gall ymddygiad anniogel arwain neu gyfrannu at dân a risgiau diogelwch eraill.

Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd sicrhau eu bod yn lleihau'r risg o ran diogelwch, rydym yn cynnig cyfrifoldebau ychwanegol i breswylwyr er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i bawb.

Rydym yn **cynnig gofyniad ar breswylwyr i gydweithredu â'r Person Atebol** a'u cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- caniatáu i berson cymeradwy gael mynediad i'ch eiddo ar gyfer archwiliad diogelwch neu i wneud gwaith;
- darparu gwybodaeth resymol am waith rydych wedi'i wneud yn eich eiddo;
- ceisio caniatâd ymlaen llaw cyn gwneud gwaith yn eich eiddo a all beryglu mesurau diogelwch tân.

# Adrannu

Adrannu yw gallu adeilad i gadw tân lle mae'n dechrau yn ddigon hir i'w ddiffodd. **Adrannu yw gallu strwythur adeilad i atal tân rhag ymledu o'r man lle mae'n dechrau** yn ddigon hir er mwyn iddo gael cael ei ddiffodd. Er enghraifft, os bydd tân yn dechrau mewn fflat, mae system adrannu effeithiol yn golygu bod llai o risg y bydd yn ymledu oddi yno i fflatiau eraill neu fannau cyffredin, megis coridorau a phyllau grisiau.

Mae system adrannu effeithiol yn hanfodol i ddiogelwch tân. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys **dyletswydd gyffredinol newydd i gadw system adrannu** ym mhob adeilad a gwmpesir gan y system newydd. Mae hyn yn golygu osgoi gwneud newidiadau a fyddai'n amharu ar y system adrannu.

Byddai'r **ddyletswydd hon yn gymwys i bob adeilad a gwmpesir gan y system newydd ac i bawb,** gan gynnwys deiliaid dyletswydd, preswylwyr a chontractwyr.

Mae enghreifftiau o dorri'r compartmentau yn cynnwys:

- drilio drwy wal allanol, unrhyw ran o'r strwythur mewnol sy'n gwahanu un fflat oddi wrth un arall, to neu wagle yn y nenfwd, neu ardal gyffredin (gan gynnwys drysau ffrynt) heb roi mesurau atal tân digonol ar waith;
- addasu drysau tân neu osod drysau nad ydynt yn gwrthsefyll ymlediad tân yn ddigonol yn lle drysau tân;
- ymyrryd â dyfeisiau hunan-gau ar ddrysau tân, neu eu tynnu i ffwrdd;
- gosod ffenestri neu dyllau aer mewn ffenestri nad ydynt yn gwrthsefyll ymlediad tân yn ddigonol.

Tudalen y pecyn 24

# Costau Diwygio

Nid yw ein cynigion yn ymwneud ag unrhyw waith adfer sy'n ofynnol ar adeiladau sy'n bodoli eisoes. Maent yn ymwneud â diwygiadau mawr i'r ffordd rydym yn dylunio, adeiladu, rheoli a byw mewn eiddo, er mwyn gwneud adeiladau'n fwy diogel yn y dyfodol a sicrhau ein bod yn osgoi'r mathau hyn o broblemau eto.

Bydd cost ar gyfer y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd. Fodd bynnag, **credwn fod y costau hyn yn angenrheidiol ac yn rhesymol** ar gyfer pethau a fydd yn arwain at gynnydd mesuradwy mewn diogelwch. Rydym yn darparu gwybodaeth am y costau tebygol hyn yn yr Asesiad o'r Effaith Economaidd.

Gwyddom fod llawer o drigolion yn wynebu costau sylweddol ar hyn o bryd oherwydd materion sydd wedi'u nodi gyda'u hadeiladau. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i ddatblygu cynnig cyllid i fynd i'r afael â materion sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â chladin, diffygion adeiladu fel adrannu a bylchau tân, systemau llethu tân (chwistrellwyr) a seinyddion gwacáu'r adeilad. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am y cyllid sydd ar gael a sut i gael gafael arno cyn gynted ag y gallwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae'r asesiad hwn yn rhoi trosolwg o'r cynigion allweddol sy'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn adeiladau amlfeddiannaeth. **Ceir rhagor o wybodaeth am y cynigion hyn,** a meysydd eraill a fydd hefyd yn cael eu newid, drwy ddilyn y dolenni isod ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae fersiynau Cryno a Hawdd ei Deall o'r Papur Gwyn hefyd ar gael ar yr un tudalennau gwe.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn nifer o gwestiynau am ei chynigion a **hoffai glywed eich barn.** Os hoffech ymateb i'r cwestiynau neu rannu eich barn ar y newidiadau, mae ffurflen ar-lein ar gael drwy ddilyn yr un ddolen, neu gallwch gyflwyno eich ymatebion drwy e-bost neu'r post yn:

***https://gov.wales/safer-buildings-wales***

***For further information:***

*Building Safety Team*
*Welsh Government*
*Cathays Park Cardiff*
*CF10 3NQ*
email: BuildingSafety@gov.wales

***https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru***

***I gael rhagor o wybodaeth:***

*Y Tîm Diogelwch Adeiladau*
*Llywodraeth Cymru*
*Parc Cathays Caerdydd*
*CF10 3NQ*
ebost: BuildingSafety@gov.wales

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau o dan y teitl Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol.**

Mae'r ymateb i'r pandemig, ac i'r llifogydd a effeithiodd ar lawer o gymunedau yng Nghymru ychydig cyn hynny, wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw'r sector gwirfoddol i iechyd a chydnerthedd ein cymunedau yng Nghymru. Mae'r heriau a ddaeth i ganlyn y digwyddiadau hyn hefyd wedi tynnu sylw at y grym a'r potensial sydd ynghlwm wrth weithredu gwirfoddol ac ysbryd cymunedol.

Rwy'n falch bod gennym ddiwylliant o wirfoddoli yng Nghymru a seilwaith hirsefydlog i ategu hyn, sy'n cynnwys llwyfan Gwirfoddoli Cymru sy'n cael ei redeg drwy CGGC, ar y cyd â Chynghorau Gwirfoddol Sirol, sy'n darparu hybiau lleol ac sy'n gweithio'n agos iawn gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Mae heriau mawr o'n blaenau, ond mae cyfleoedd o ddifri hefyd i ddysgu o brofiad y flwyddyn ddiwethaf ac adeiladu arno, yn enwedig er mwyn harneisio grym cymunedau, y dangoswyd ei fod yn rymus iawn. Rwyf yn glir iawn bod yn rhaid i'n blaengynllunio gael ei wneud o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol fel nad yw anghydraddoldebau'n gwreiddio'n ddwfn, ac nad anghofir am y rhai yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur. Bydd hyn yn pennu'r math o gymdeithas sy'n deillio o'r pandemig.

Rwyf hefyd yn awyddus i ni ddod o hyd i ffyrdd o fanteisio ar rai o'r newidiadau cadarnhaol rydym wedi eu gweld o ran gwirfoddoli a gweithio mewn partneriaeth, a chamau gweithredu lleol a allai arwain at fanteision go iawn yn y tymor canolig a'r tymor hir. Un enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth yw'r Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am eu hadroddiad ar Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol. Rwy'n arbennig o falch o weld bod llawer o argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Dyma argymhellion y Pwyllgor:

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y mae'r strwythur gwirfoddol presennol wedi'i chwarae wrth wella'r ymateb i'r pandemig. Byddem yn annog unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynnal seilwaith presennol y trydydd sector, ac i geisio gweld sut y gellir gwella'r strwythurau hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yw'r prif fecanwaith ar gyfer ymgysylltu.

Sefydlodd y Cyngor Partneriaeth Grŵp Adfer Covid-19 y llynedd i ystyried sut gallwn ni adeiladu ar ymateb y sector gwirfoddol i'r argyfwng a chanfod rhai o'r ffyrdd newydd, cadarnhaol o weithio rydym wedi eu gweld yn dod i'r amlwg. Mae wedi archwilio sut gall y sector gwirfoddol gyfrannu at adferiad teg, cyfiawn a gwyrdd o'r pandemig.

Mae'r grŵp wedi llunio adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor Partneriaeth ym mis Mawrth ac a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Drwy gydol y pandemig rydym wedi gweld gwerth ein seilwaith trydydd sector sydd wedi ategu'r ymateb gwirfoddol i'r argyfwng hwn. Ein nod yw parhau i ategu'r seilwaith hwn a gweithio gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r pedwar ar bymtheg o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru) i sicrhau ei gydnerthedd.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau y bydd defnyddio'r Cyngor Partneriaeth fel y prif bwynt ymgysylltu yn caniatáu i lais y sector gwirfoddol yng Nghymru ymwreiddio'n gadarn yn y gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw newid sylweddol ym mhresenoldeb y sector gwirfoddol yng Nghymru er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i ymgysylltu â'r elusennau hyn a'u hannog i adfer eu presenoldeb yng Nghymru pan fyddant mewn sefyllfa i wneud hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau y ceir deialog agored gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid gan gynnwys Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyllidwyr eraill i sicrhau bod gan Gymru sector gwirfoddol cryf a bywiog.

Yn sgil pandemig Covid-19 mae llawer o'r cysylltiadau hyn wedi cryfhau. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chyllidwyr eraill yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, drwy Fforwm Cyllidwyr Cymru, i sicrhau bod yr amrywiaeth o gynlluniau cyllido a ddatblygwyd mewn ymateb i'r argyfwng yn cyd-fynd â'i gilydd yn hytrach na

dyblygu gwaith. Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau bod unrhyw fwlch yn y cymorth yn cael sylw cyn gynted â phosibl.

Er ein bod yn cydnabod y bydd elusennau'n dewis lle maent wedi eu lleoli a sut maent yn gweithredu, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau bod Cymru'n amgylchedd croesawgar a chefnogol lle gall holl fudiadau'r trydydd sector ffynnu.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu rôl y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys:

- Nodi a chydnabod yn glir rôl hanfodol y sector gwirfoddol wrth ymateb i argyfyngau;
- Rhannu arferion gorau o'r ymateb i'r pandemig a'r llifogydd yn 2020; ac
- Asesu i ba raddau y mae'r sector gwirfoddol wedi'i integreiddio i strwythurau cynllunio ar gyfer argyfwng ffurfiol ac anffurfiol a sut y gellir cryfhau partneriaethau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i baratoi i ymateb i argyfyngau yn y dyfodol.

Mae strwythur llywodraethu sy'n cynnwys nifer o grwpiau o aelodau aml-asiantaeth eisoes wedi ei sefydlu a cheir cydweithio i gryfhau parodrwydd, meithrin gallu ar y cyd a gwella cydnerthedd ar draws ein cymunedau yng Nghymru.

Mae Prif Weinidog Cymru yn cadeirio Fforwm Cymru Gydnerth i ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac i ategu cyfathrebu da a gwella cynllunio ar gyfer argyfyngau ar draws asiantaethau a gwasanaethau. Cefnogir y Fforwm hwn gan nifer o is-grwpiau, ac un ohonynt yw Grŵp Cydnerthedd Cymunedol Cymru, sy'n gweithredu fel pwynt ffocws a chyfrwng ar gyfer y sector gwirfoddol, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac asiantaethau ymateb ac i fwrw ymlaen â gwaith ar gydnerthedd cymunedol a chymorth dyngarol.

Gellir defnyddio'r grŵp hwn i ddod â chynllunio ar gyfer argyfyngau a phartneriaid yn y sector gwirfoddol at ei gilydd i rannu gwybodaeth a dysgu o'u hymateb i Covid-19 ac achosion o lifogydd ac i ystyried y ffordd orau o wella, meithrin a chryfhau cysylltiadau gwaith cynhyrchiol i ategu strwythurau cynllunio ar gyfer argyfyngau.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i sicrhau bod y strategaeth ddigidol sydd ar y gweill ar gyfer Cymru yn adlewyrchu gwaith y sector gwirfoddol yn llawn a'r symud tuag at ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.

**Ymateb: Derbyn**

Amlinellwyd uchelgeisiau digidol Llywodraeth Cymru mewn cyfres flogiau yn seiliedig ar y Strategaeth Ddigidol ddrafft ar gyfer Cymru, gan nodi ein gweledigaeth i harneisio pŵer offer a thechnolegau digidol er budd dinasyddion yng Nghymru.

Yn ystod y gwaith o gyhoeddi'r blogiau, gwahoddwyd sylwadau am genhadaeth a chamau gweithredu blaenoriaeth y strategaeth gan bob unigolyn, sefydliad a busnes sydd â diddordeb. Rydym yn cynnal sgyrsiau manylach gydag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a mudiadau yn y sector gwirfoddol a gynrychiolir gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r ddeialog hon gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau bod y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Cymru a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn adlewyrchu ei rôl o ran darparu gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sector gwirfoddol yn hanfodol o ran cynaliadwyedd ein cymorth cynhwysiant digidol ledled Cymru ac mae rhwydweithiau gwirfoddolwyr eisoes yn darparu amrywiaeth o gymorth gan gynnwys hyrwyddwyr sy'n pontio'r cenedlaethau, cymheiriaid a sefydliadau. Mae ein rhaglen caffael Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant hefyd yn dibynnu ar y cysylltiadau sy'n cael eu datblygu ar lefel gymunedol i sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd mewn angen.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn ystod y pandemig. Dylai'r adolygiad nodi arferion da y gellir eu hefelychu ledled Cymru ac ystyried a oes angen cryfhau mecanweithiau ffurfiol i sicrhau bod cydgynhyrchu a gwaith partneriaeth ystyrlon rhwng cyrff statudol, cyrff anstatudol, a dinasyddion.

**Ymateb: Derbyn**

Mae adroddiad Grŵp Adfer Covid-19 y Cyngor Partneriaeth wedi nodi pwysigrwydd cysylltiadau cryf a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y pandemig a thu hwnt. Byddwn yn datblygu Grwpiau Arweinyddiaeth ar Wirfoddoli yn fewnol ac allanol i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad yn y misoedd i ddod.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Partneriaeth fel ein prif fecanwaith ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid ar draws sectorau. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, cyllidwyr a llawer mwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg gydag Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol i gasglu gwybodaeth am wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl agored i niwed nad ydynt ar restr gwarchod Covid-19. Crynhoir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn:

Rydym hefyd wedi datblygu Grant Adfer yn sgil y Coronafeirws ar gyfer Gwirfoddoli. Mae'r grant hwn wedi cynorthwyo 27 o brosiectau ledled Cymru sy'n anelu at ddatblygu gwell partneriaethau strategol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector

gwirfoddol. Nod y prosiectau hyn yw meithrin cysylltiadau cryfach a gwella'r agwedd strategol tuag at wirfoddoli yng Nghymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall gwirfoddoli gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus a llesiant ar ôl COVID-19.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd uchod, rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwn wrth sefydlu Grŵp Adfer Covid-19 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Fel rhan o weithredu'r argymhellion yn adroddiad y grŵp hwn, byddwn yn sefydlu Grwpiau Arwain Gwirfoddoli mewnol ac allanol.

Rydym hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwaith is-grŵp Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar Gyllido a Chydymffurfiaeth. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu i'r Cyngor Partneriaeth ym mis Mawrth a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen o rymuso cymunedau ledled Cymru gyda'r sector gwirfoddol, gan weithredu fel gwladwriaeth alluogi ar gyfer gweithredu cymunedol. Rydym yn cefnogi galwad CGGC y dylai hyn gynnwys Cronfa Cyfoeth Gymunedol a deddfwriaeth i ddarparu mwy o allu i gymunedau gymryd rhan mewn gweithredu lleol.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod gan Gymru sector gwirfoddol cryf a bywiog sy'n ategu gweithredu cymunedol.

Byddwn hefyd yn parhau â'n deialog parhaus gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru i sefydlu pa gamau mae'r sector ei hun o'r farn eu bod yn angenrheidiol i annog cymunedau i gymryd mwy o ran mewn gweithredu lleol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cyfleoedd i alluogi grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd yn ystod y pandemig sydd am barhau ac sydd wedi bod yn cynorthwyo eu cymunedau lleol yn llwyddiannus, i dderbyn y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu gwaith.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes yn gweithio gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru a chyllidwyr ledled Cymru i sicrhau bod ein seilwaith cymorth ar y cyd yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn addas i'r diben er mwyn darparu cymorth pan fydd ei angen.

Mae aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi bod yn ymateb i'r heriau mae'r pandemig wedi eu creu. Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru eisoes yn darparu

amrywiaeth o gymorth i grwpiau sydd newydd gael eu sefydlu, gan gynnwys cynnal gwiriadau DBS, cynorthwyo grwpiau gyda materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a llywodraethu ac, wrth gwrs, darparu cyllid i gynorthwyo gweithgareddau'r grwpiau.

Byddwn yn parhau i weithio drwy seilwaith y trydydd sector i sicrhau bod cymorth ar gael i'r grwpiau hyn i sicrhau eu bod yn gallu bod yn fwy cydnerth a chynaliadwy heb rwystro'r ffyrdd creadigol o weithio maent wedi eu datblygu.

**Argymhelliad 9.** Gan adeiladu ar Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gynyddu cydnerthedd y sector a'i allu i chwarae ei ran wrth roi cymorth yn y fan a'r lle i gymunedau yn ystod yr adferiad. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

**Ymateb: Derbyn**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sector gwirfoddol wedi wynebu'r her o gynorthwyo ein pobl fwyaf agored i niwed drwy argyfwng na welwyd ei debyg o'r blaen. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid i alluogi'r ymateb hwn. Rydym wedi darparu cyfanswm o £38.2 miliwn ar gyfer Cronfa Ymateb i Covid-19 y Trydydd Sector yn 2020-21.

Un o'r cronfeydd rydym wedi ei darparu drwy'r Gronfa Ymateb, sy'n cael ei darparu gan CGGC, yw Cronfa Cadernid y Trydydd Sector. Mae hyn wedi galluogi sefydliadau i oroesi'r argyfwng ac addasu a gwella ar gyfer y dyfodol. Nid ydym yn gwybod eto pa heriau a ddaw yn sgil adferiad ac rydym wedi ymrwymo o hyd i gynorthwyo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i nodi ac ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r adferiad fynd rhagddo. Wedi dweud hynny, mater i'r weinyddiaeth nesaf yw penderfyniadau cyllido tymor hwy o hyd.

Ynghyd â Chronfa Cadernid y Trydydd Sector, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Elusennau ar brosiect sydd â'r potensial i ryddhau hyd at £20 miliwn er budd cymunedau Cymru. Bydd y prosiect yn adfywio ymddiriedolaethau ac elusennau segur yng Nghymru gan ddod â'r rhain yn ôl i rym, gan wasanaethu er budd eu cymunedau.

Mae'n werth sôn yma hefyd ein bod ni wedi ymrwymo i barhau i ategu seilwaith y trydydd sector yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu i Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn ei dro ddarparu cymorth i'r 30,000 a mwy o sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Cymru, gan eu helpu i ddatblygu cydnerthedd a dod yn fwy cynaliadwy.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Cyllidwyr Cymru i helpu cyllidwyr i barhau i rannu gwybodaeth a chydweithio ar ôl y pandemig.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gydol y pandemig rydym wedi bod yn ymgysylltu â chyllidwyr ledled Cymru a thu hwnt. Rydym wedi gweithio gydag aelodau Fforwm Cyllidwyr Cymru gan

gynnwys y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Moondance, Sefydliad Lloyd, Sefydliad Cymunedol Cymru a llawer o rai eraill i rannu gwybodaeth a sicrhau ein bod yn cydlynu ein cymorth. Bu'n broses hynod ddefnyddiol sydd wedi golygu ein bod ni wedi datblygu cronfeydd sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn hytrach na dyblygu gwaith. Mae hefyd wedi sicrhau bod bylchau yn y cymorth yn cael eu llenwi'n gyflym.

Rydym yn awyddus iawn i barhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol ac rydym o'r farn y bydd yn elfen allweddol o adferiad teg a chyfiawn ar ôl y pandemig.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n briodol, archwilio ac ymchwilio i ganiatáu i gyllid heb ei wario gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Ymateb:  Derbyn**

Mae Is-grŵp Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar Gyllido a Chydymffurfiaeth eisoes wedi dechrau edrych ar y mater hwn ac mae'n rhan o'i gynllun gweithredu. Nid yw'r mater yn un syml a bydd angen ymchwilio'n ofalus iddo drwy gynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Dyma rai o'r materion y mae angen eu hystyried:

- Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu o fewn y gofynion cyllidebu ac adrodd ariannol a bennir gan Drysorlys EM ac fel y pleidleisiwyd arnynt yn y Senedd, sy'n cynnwys cyfyngiadau ar wariant blynyddol a chyfyngiadau llym ar arian a ddygir ymlaen rhwng blynyddoedd ariannol.
- Ni all Llywodraeth Cymru gynnig hyblygrwydd i endidau a gyllidir y tu allan i'r trefniadau hynny.
- Nid yw hyn yn golygu na all Llywodraeth Cymru reoli trefniadau cyllido na chontractau dros fwy nag un flwyddyn ariannol, dim ond os oes trefniadau o'r fath ar waith, rhaid i'r gwariant blynyddol gael ei ddwyn i gyfrif yn briodol a'i adrodd i'r Senedd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau ar gyfer contractau a grantiau gyda'r sector gwirfoddol yn ymwybodol o'r baich y gall y broses dendro neu ymgeisio cylchol ei roi ar fudiadau bach, a bydd angen i ddatblygiadau yn y maes hwn yn y dyfodol gwrdd â gofynion caffael a dyfarnu grantiau teg ac agored.
- Pan fydd derbynnydd cyllid yn tanwario, mae hynny fel arfer yn ganlyniad i lithriad neu oedi wrth gyflawni gweithgareddau. Ni ddylai Llywodraeth Cymru, o ran stiwardiaeth ariannol dda, ddarparu cyllid lle nad yw gweithgareddau yn cael eu cyflawni, fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ellir rheoli rhaglenni a phrosiectau o un flwyddyn i'r llall. Mae trefniadau eisoes yn bodoli ar gyfer ymestyn telerau ac amodau'r grant.
- Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud taliadau ymlaen llaw mewn rhai amgylchiadau i fudiadau gwirfoddol lle mae heriau llif arian yn bodoli, ac mae wedi gwneud defnydd da o'r gallu hwn i gynorthwyo'r ymateb diweddar i Covid-19.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu sefydliadau sector gwirfoddol BAME, wrth ystyried cyllid ar gyfer y trydydd sector. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw rwystrau ychwanegol y gallai grwpiau BAME eu hwynebu wrth gael cyllid a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a gweithio i leihau'r rhwystrau hyn.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda'n seilwaith trydydd sector i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i ganfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol y mae rhai rhannau o'r sector yn eu hwynebu, yn enwedig y rhai o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Bydd yr ymgynghoriad presennol ar Gronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru a'r ymgynghoriad sydd ar y gweill ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn sail ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a myfyrio ar ganfyddiadau adroddiad Yn Uchel ac yn Groch Sefydliad Cymunedol Cymru ac annog cyllidwyr i gefnogi costau craidd fel bod gan sefydliadau y rhyddid i addasu mewn sefyllfaoedd sy'n bythol newid er mwyn cynnal a datblygu canlyniadau gwasanaethau neu raglenni allweddol.

**Ymateb:  Derbyn**

Fel rydym wedi ei dweud yn barod, rydym yn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau rydym wedi eu datblygu gydag aelodau Fforwm Cyllidwyr Cymru a chyllidwyr eraill. Bydd rhan o hyn yn ein galluogi i gydweithio i gefnogi anghenion cyllido'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Bydd gwaith Is-grŵp Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar Gyllido a Chydymffurfiaeth hefyd yn dylanwadu ar ein gwaith parhaus yn y maes hwn.

Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried mai dim ond rhan o'r darlun yw cyllido o ran datblygu sector gwirfoddol bywiog a chadarn yng Nghymru. Mae angen y sgiliau iawn ar fudiadau'r sector gwirfoddol hefyd. Credwn y bydd ein seilwaith trydydd sector yn hanfodol o ran helpu sefydliadau i ddatblygu'r sgiliau hyn, i wella llywodraethu ac i wella cydnerthedd a chynaliadwyedd y sector yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch effaith rhwymedigaethau rhyngwladol cyfredol mewn perthynas â rheolau Cymorth Gwladwriaethol ar roi cymorth i'r sector manwerthu elusennol.

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gydol y trafodaethau ar delerau'r cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, aeth Llywodraeth Cymru ati'n rhagweithiol i

ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygu trefn cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig i sicrhau ei bod yn addas i'r Deyrnas Unedig gyfan ac nad oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn unig. Gan fod cytundeb ar Fasnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi ei sefydlu wythnos yn unig cyn diwedd y Cyfnod Pontio, mae trefn cymorthdaliadau sylfaenol ar gyfer y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys ymrwymiadau cymhorthdal rhyngwladol y Deyrnas Unedig wedi dod i rym. Yn y cyfnod cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig agor proses ymgynghori â'r cyhoedd ar ddylunio cymhorthdal domestig newydd ar 3 Chwefror 2021, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau bod buddiannau Cymru a busnesau Cymru yn cael eu cydnabod, a byddant yn parhau i wneud hynny wrth i'r datblygiad fynd rhagddo. Mae'n hollbwysig bod trefn cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil bellach i asesu gwerth cymdeithasol ei buddsoddiad yn y sector gwirfoddol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o arferion da eisoes wedi cael eu datblygu yn y maes hwn, yn enwedig yng ngogledd Cymru a thrwy ddatblygu Canlyniadau a Mesurau Themâu Cymru. Byddwn yn sicrhau bod seilwaith y trydydd sector yn manteisio ar yr arfer da hwn ac yn ystyried defnyddio Cronfa Newid y Trydydd Sector i'w ddosbarthu ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn ystyried beth arall y gellir ei wneud i asesu gwerth cymdeithasol buddsoddiad Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi meysydd ar draws ei gwaith lle gall y sector gefnogi'r adferiad, gwasanaethau cyhoeddus, meithrin cydnerthedd cymunedol cynaliadwy a llesiant.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Grŵp Adfer Covid-19 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector eisoes wedi dechrau gweithio ar y maes hwn. Fel rydym wedi ei nodi, bydd adroddiad y Grŵp yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir a bydd Grwpiau Arwain Gwirfoddoli mewnol ac allanol yn cael eu sefydlu i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn rhaglenni'r sector gwirfoddol sy'n cefnogi'r adferiad, mewn modd tebyg i Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol. O ystyried hyd yr argyfwng, dylid ystyried ymestyn hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel y dywedasom yn ein hymateb i Argymhelliad 9, rydym wedi darparu cyfanswm o £38.2 miliwn ar gyfer Cronfa Ymateb Trydydd Sector Covid-19 yn 2020-21. Mae Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, a ddarperir eto gan CGGC, yn rhan o'r Gronfa Ymateb hon.

Nid ydym yn gwybod eto pa heriau a ddaw yn sgil adferiad ac rydym wedi ymrwymo o hyd i gynorthwyo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i nodi ac ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r adferiad fynd rhagddo. Wedi dweud hynny, mater i'r weinyddiaeth nesaf o hyd yw penderfyniadau cyllido tymor hwy.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i gynorthwyo seilwaith y trydydd sector yng Nghymru ac rydym wedi sicrhau cynnydd mewn cyllid craidd ar gyfer Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2021-22.

**Argymhelliad 18.** Mewn gwaith adfer yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob rhan o'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r sector gwirfoddol wrth lunio polisïau a darparu gwasanaethau. Dylai hyn hefyd arwain at fwy o waith partneriaeth y tu hwnt i'r adferiad a chynnwys lleisiau'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd, rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda'r sector gwirfoddol ledled Cymru. Byddwn yn gwneud hyn yn bennaf drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'n gwaith gyda sefydliadau seilwaith y trydydd sector. Rydym hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid eraill gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Canolfan Cydweithredol Cymru, Sefydliad Cymunedol Cymru a llawer mwy.  Rydym yn cydnabod bod angen i lais y sector gwirfoddol gael ei wreiddio'n gadarn mewn penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Rhan o waith Grŵp Adfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fu ystyried manteision y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi deillio o'r argyfwng. Rydym wedi gweld cysylltiadau rhwng y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus yn datblygu mewn ffyrdd newydd gydol y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y newidiadau cadarnhaol hyn yn cael eu cadw.

Fe wnaethom sefydlu Grant Adfer y Coronafeirws ar gyfer Gwirfoddoli gyda'r nod o helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cysylltiadau gweithio gwell.

Fodd bynnag, er y gallwn barhau i weithio ar ddatblygu'r cysylltiadau hyn, mae hwn yn nod hirdymor y bydd angen i'r weinyddiaeth nesaf ei gefnogi a'i barhau.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar effeithiolrwydd y strategaeth Cysylltu Cymunedau wrth fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig o fewn 12 mis.

**Ymateb: Derbyn**

Pan gyhoeddwyd Cysylltu Cymunedau ym mis Chwefror 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad bob dwy flynedd yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn y strategaeth a rhannu rhagor o gamau gweithredu ac unrhyw newid i'n dull gweithredu.

Bydd yr adroddiad cynnydd cyntaf yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2022.

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach sut y mae modd defnyddio technoleg newydd, yn cynnwys yr ap sy'n cael ei ddatblygu gan Hafod, i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried problemau'n ymwneud â'r rhaniad digidol a sicrhau bod atebion yn ystyried problemau'n ymwneud â mynediad digidol.

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £30,000 o gyllid tuag at gam 1 o gynllun peilot seiliedig ar seinydd clyfar ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae 'Gofal Cartref' yn cael ei dreialu gan gonsortiwm sy'n cynnwys Hafod, Accenture, Amazon a Chanolfan Heneiddio Arloesol Prifysgol Abertawe.

Mae materion sy'n ymwneud â'r bwlch digidol, a sicrhau bod atebion yn ystyried y materion hyn, yn cael eu hystyried gan grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Sefydlwyd y grŵp, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o'r sector statudol a'r trydydd sector a sefydliadau llawr gwlad, i'n helpu i ddeall yn well effaith y pandemig ar unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae allgáu digidol a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb yn ddau o'r prif feysydd a godwyd gan aelodau'r grŵp.

Mae cynhwysiant digidol yn fater allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb. Mae Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru yn nodi ein huchelgeisiau ar draws chwe chenhadaeth, sef gwasanaethau digidol, sgiliau digidol, cynhwysiant digidol, cysylltedd digidol, economi ddigidol a data a chydweithio. Mae cynhwysiant digidol wrth galon popeth a wnawn, sydd wedi ei wreiddio ar draws **polisïau, rhaglenni a datblygu gwasanaethau.**

Mae cynhwysiant digidol yn ymwneud â sicrhau bod gan bobl yr hyder i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol mewn ffyrdd a fydd yn gwella eu bywydau, gan eu helpu i oresgyn anfanteision eraill y gallent eu hwynebu. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig ag allgáu digidol, cysylltedd a mynediad, ac rydyn ni'n gwybod nad dyfeisiau a seilwaith yn unig yw'r ateb.

Gall datblygu sgiliau digidol cymunedau arwain at ragor o gyfleoedd economaidd, cymdeithas fwy cyfartal a gwell cydlyniant cymunedol. Rydyn ni eisiau egluro ein

hymrwymiad i gefnogi pawb i gael y cymhelliant, yr hyder a'r sgiliau er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a dewis sut maent yn cymryd rhan yn ein byd sy'n dod yn fwyfwy digidol, a manteisio i'r eithaf arno.

Un o elfennau allweddol y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Cymru yw rôl y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Mae'r Ganolfan, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2020, yn gyfrifol am rannu arferion gorau a gwella'r gwaith o gydlynu gwasanaethau sy'n ymestyn ar draws Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byd busnes a'r Trydydd Sector yng Nghymru.   Ym mis Medi, rhannodd y Ganolfan ddrafft cyntaf Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru. Bydd safon gwasanaeth digidol cyffredin ar draws yr holl sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ategu ac yn gwreiddio'r gwaith o ddylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac yn darparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i'r holl ddefnyddwyr. Mae'r Safonau yn cadarnhau bod rhaid i ddyluniad y gwasanaeth fod yn gwbl gynhwysol, gyda ffyrdd eraill o gael mynediad ar gael, a'i ddatblygu i fod yr un mor dda â'r rhai sy'n cael eu cynnig ar-lein.

**Jane Hutt AS**

**Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon